Cofnodion Cyfarfod 16eg o Gorffennaf 2013 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Ken Brown	Bethan Jones
Lena Ashley	George Smith
Pat Jones	Iestyn Harris
Siân Gwenllïan	Louise Hughes

Wynne Barton Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor.

1.2 Fe safodd y Cyngor mewn barchedig dawelwch mewn coffadwriaeth am y Cyn Gynghorydd Pat White.

1.3 Fe roddodd y Cadeirydd ei adroddiad am y is gan gynnwys unrhyw ddatblygiadau. Dywedodd ei fod wedi cael cwynion ynglŷn â Gwylanod Môr yn torri i mewn i fin sbwriel ger mainc sydd wedi ei lleoli o flaen maes chware'r plant ar Ffordd Glan Môr. Dywedodd bod angen symud y bin er mwyn galluogi'r fainc fod yn ddiogel i'w defnyddio

Y Clerc i ysgrifennu at Adran Gofal Stryd Cyngor Gwynedd.

1.4 Mae uned Watkin Jones dal i fod ar y maes parcio ers Gŵyl y Felin ac yn anffodus mae yn cymryd tri safle parcio.

Y Clerc i gysylltu â Cadeirydd Gŵyl y Felin.

Ymddiheuriadau Sarah Riley, Hywel Vaughan Jones, Daniel Williams, Nerys John

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Dim

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 11 a 18 fed o Fehefin 2013.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Menter Fachwen** - dywedodd y cadeirydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Menter Fachwen ynglŷn â safle Moriah ac roeddynt eisiau £426 am y gwaith gyda'r lafant ac yn y blaen. Yn anffodus nid oedd y safle yn addas ar gyfer i weithwyr Menter Fachwen i wneud gwaith cynnal oherwydd ei fod yn serth.

4.2 **Cerdded a Darganfod** - Angen trefnu cyfarfod agored gyda Gareth Roberts Menter Fachwen i dderbyn sylwadau'r cyhoedd ar sut i symud ymlaen ar gynllun. Dywedodd y Clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Dafydd Einion Jones er mwyn cael gwybodaeth a grantiau ar gyfer ariannu rhan o'r cynllun. Yn anffodus nid oes llawer o grantiau ar gael i Cynghorau Cymuned ond bod arian ar gael i gyrff sydd yn gweithredu tu allan i'r cyngor.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Dywedodd Cadeirydd y pwyllgor ei fod wedi cysylltu â Phensaer y Neuadd ynglŷn â'r adroddiad tân a deallwyd bod materion a'r larwm tân yn codi oherwydd bod yr adeiladwr wedi defnyddio trydanwr oedd yn gymwys ond heb gofrestru a 'r NICC.

5.2 Gobeithir cynnal cyfarfod o'r pwyllgor diwedd Awst.

5.3 Cafwyd adroddiad bod drws un o'r toiledau ddim yn cau, ond bellach mae gwaith atgyweirio'r to wedi ei gwblhau a bod mater o'r bocs nwy yn derbyn sylw.

5.4 Gwelwyd bod y llenni wedi eu gosod, rhoddwyd canmoliaeth i'r gwaith.

5.5 I ddyddiad roedd £4278 yng nghyfrif y neuadd.

5.6 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â marchnata'r neuadd ac fe gyflwynwyd sylwadau ynglŷn â datblygu taflenni i'r perwyl hyn. Roedd yr eitem yma i'w drafod ymhellach gan bwyllgor y neuadd.

.

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Mehefin.

6.2 Trafodwyd anfoneb cyfieithu Fforwm Busnes y Felinheli a phenderfynwyd y byddai'r Cyngor yn noddi'r fforwm am y tro wrth dalu am y gwasanaeth cyfieithu.

6.3 Roedd cais am arian tuag at gofeb y Gymru yn Fflandrys sydd i'w dadorchuddio flwyddyn nesaf pam fyddai cofio 100 mlynedd ers cychwyn y rhyfel byd cyntaf. Teimlodd y cyngor nad oedd digon o wybodaeth ynglŷn â'r mater a byddent yn hoffi derbyn fwy o wybodaeth cyn wneud penderfyniad.

Y Clerc i Gysylltu â gwneud cais am fwy o wybodaeth.

7.0 GOHEBIAETH

7.1 Giatiau Bodrandreg - **Dim Gwrthwynebiad.**

.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Gofyn a byddai rhai'r o'r aelodau yn gallu helpu i ddyfrio'r blodau sydd wedi eu gosod o amgylch y cloc.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 C13/0552/20/LL – Cais gosod balconi ar gefn yr eiddo – 10 Brynffynnon, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4SX – **Dim gwrthwynebiad**

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1 Adroddwyd bod pridd mewn bag wedi ei gyflwyno i'r fynwent er defnydd teuluoedd odd angen lefelu pantiau ar feddi. Gofynnwyd a byddai nodyn yn cael ei roi i roi eglurhad ar ddefnydd y pridd.

10.2 Cafwyd adroddiad bod blodau yn cael eu drwyn o'r fynwent - dywedodd y Cadeirydd y byddai yn cael gair a PCSO Ian Rooksby ynglŷn ar fater yma.

10.3 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwair yn cael ei dorri cael aelodau'r cyhoedd ac yn gwneud llanast ar draws beddi. Penderfynwyd bod rheol yn cael ei chynnwys i'r rheolau presennol y fynwent i hysbysu'r cyhoedd nad oedd yr ymarferiad yma yn dderbyniol.

Cynghorydd Iestyn Harris i eirio'r rheol.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Cafwyd adroddiad bod problem parcio ar linellau melyn o fewn y maes parcio. Cyflwynwyd y marciau er mwyn hwyluso cerbydau i droi i safleoedd parcio. Cafwyd drafodaeth ar y mater a phenderfynwyd bod arwydd/rhybudd yn cael ei godi ar gyfer hysbysu defnyddwyr y maes parcio o arwyddocâd y marciau.

Cynghorydd Iestyn Harris i eirio'r arwydd/rhybudd

11.2 Fe adroddwyd bod difrod wedi ei wneud i goedyn gwaelod giât ger Peningtons ar y Lon Las.

Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o'r difrod.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 **Llwybr Rowen** - nid yw'r llwybr yma yn gyhoeddus hyd yma a cyn fydd Cyngor Gwynedd yn ei fabwysiadu fel un cyhoeddus mae angen codi ei safon. Mae'r llwybr drwy dir y Feddygfa wedi derbyn gwaith/gwelliant nid yw'r rhan gwaelod wedi derbyn unrhyw waith. Mae Cyngor Gwynedd am arolygu'r safle a chyflwyno i'r Cyngor Cymuned gynllun o'r gwaith angenrheidiol angen ei wneud ar gyfer mabwysiadu'r llwybr.

12.2 Stepiau Cei yn dal i dderbyn sylw Cyngor Gwynedd ynglŷn â dod o hyd i berchennog y wal gynnal.

12.3 Mae Cysodfannau'r bysiau wedi derbyn gwasanaeth.

12.4 Mae mainc ger y Wern ar Ffordd Bethel angen ei phaentio.

Y Clerc i gysylltu â'r Adran Strydoedd ynglŷn â gwneud cais am hyn.

13.0 CYNGHORODD SIR

13.1 Gweler Atodiad A.

.

14.0 UNRHYW FATER ARALL

14.1 Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus drwy Bryn Ffynnon – dywedodd y clerc ei bod wedi gwneud cais ar gyfer hyn i Cyngor Gwynedd a bod ymateb wedi dod i law y byddant yn edrych ar y cais.

14.2 Golau Stryd ger Cerrig yr Afon - cyflwynodd Siân Gwenllïan lythyr oedd wedi derbyn oddi wrth Cerrig yr Afon ynglŷn â'r mater a'u bod yn cynnig £500 ar gost codi un golau. Fe drafodwyd y mater a phenderfynwyd bod y Cyngor yn cynnig £2000(2/3 o'r gost) at y gwaith.

Y clerc i gysylltu â Cherrig yr Afon.

14.3 Safleoedd Parcio ar Ffordd Glan Môr - nid yw statws perchnogaeth safleoedd yn glir a phan nad oes gorfodaeth yn bodoli arnynt.

Y Clerc i gysylltu ag Adran Parcio Cyngor Gwynedd er mwyn derbyn cadarnhad perchnogaeth y safleoedd

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....

Atodiad A

Gyda thristwch y daeth y newydd fod y cyn-Gynghorydd Cymuned Pat White wedi ein gadael. Roedd Pat yn hynod o weithgar yn y pentref a bydd colled fawr ar ei hôl. Hi oedd yn trefnu'r Gystadleuaeth Garddio a gwasanaeth Sul y Cofio bob blwyddyn a bu'n gadeirydd Pwyllgor y Fynwent. Mae pawb yn cydymdeimlo yn llwyr efo Dave a'r teulu yn eu colled.

1)Canolfan Meddygol **Rowen**: Mae'r practis yn gofyn i bawb fod yn amyneddgar wrth iddyn nhw setlo mewn i'r lle newydd. (15 Gorff ymlaen) Bydd y ganolfan ar agor ond ni fydd y sustemau IT yn weithredol wythnos yma. Bydd modd cymryd galwadau ffôn ond bydd y doctoriaid ym Mhorthaethwy tan ddiwedd yr wythnos. Pob lwc gyda'r symud a gobeithio na fydd gormod o broblemau. Cafwyd sicrwydd y bydd canran uchel o'r doctoriaid yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog. Mae trafodaethau ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus yn parhau.

2)Tai ger yr Ysgol (**Ger Y Nant**) : Yn dilyn cyfarfod efo swyddogion, cytunwyd i symud yr arwyddion 30mph yn nes at Fethel; i roi stribedi i arafu traffig ar y ffordd cyn y tro wrth ddod o Fethel; i wneud gwelliannau i'r tir ger y tro. Mae'r cwmni wedi addo llenwi'r ffosydd sydd wedi eu difrodi gan y lorïau trymion ar y ffordd gefn. Y rheolwr ar y safle yw Mark Williams (07787575979) a gallwch gysylltu ag o os oes problemau gyda lorïau ac ati.

3)**Gosod y Tai (**Ger Y Nant) : Mae 6 o'r tai wedi eu gosod gan Tai Eryri i deuluoedd lleol. Bydd 6 arall yn barod ym mis Medi sef 4 fflat a 2 dy. Cysylltwch â Tîm Opsiynau Tai Gwynedd ar 01766 771000 os ydych yn awyddus i wybod mwy am y 6 tŷ cymdeithasol. Hefyd, mae 7 tŷ wedi eu gosod i bobol leol drwy gynllun arbennig gan y datblygwyr. Braf gweld pobl leol yn cael budd o'r datblygiad.

4)**Ffordd Osgoi** Caernarfon/Bontnewydd: Byddwch yn gwybod i ni gael buddugoliaeth gyda'r ymgyrch hon fydd yn golygu defnyddio'r ffordd osgoi bresennol yn hytrach na difetha tir ger Carreg Coch a Crug. Newyddion da iawn!

5)**Fforwm Busnes Y Felinheli**: mae tri chyfarfod llwyddiannus wedi eu cynnal a busnesau lleol yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyd-gyfarfod. Mwy o wybodaeth gan Lesley (Boatshed.)

6)**Llwybr drwy'r Faenol:** mae llawer wedi cysylltu yn poeni y bydd y llwybr mewn i'r Faenol ger y Lodge ym mhen draw'r Marina yn cael ei gau i'r cyhoedd. Rwyf yn trafod y ffordd ymlaen efo trigolion lleol a swyddogion y Cyngor.

7)**Lon Las** ger Ffordd Caernarfon: mae oedi bychan wedi bod gyda datblygu rhan newydd o Lon Las Menai ger Ffordd Caernarfon ond mae'r datblygiad dal ar y gweill a bydd yn hwyluso mynediad at y Ganolfan Feddygol newydd ac yn gadw beicwyr oddi ar y ffordd fawr.

8)**Problemau tir** yn Ffordd Caernarfon: bu Martin Haselgrove (ar ran preswylwyr Ffordd Caernarfon), Ken Brown (Cadeirydd y Cyngor Cymuned) a minnau mewn cyfarfod gydag Uned Stadau'r Cyngor Sir i drafod y problemau sydd yn y rhan yma o'r pentref. Mae'r problemau tir o flaen Pendorlan a ger Stepiau Cei yn parhau. Mae Cyngor Gwynedd yn dal i edrych ar faterion cyfreithiol. Yn anffodus, mae hyn yn cymryd amser ac mae pawb yn rhwystredig iawn fod pethau mor araf yn symud ymlaen. Mae'r ffaith fod y llwybr cyhoeddus ar gau yn creu anhwylustod mawr i lawer o bobl ac yn effeithio busnesau lleol.

10)**Newid amser parcio** ar Stryd Bangor: o'r diwedd mae'r mater o ymestyn y cyfnod y cewch aros ar ran o Stryd Bangor yn symud ymlaen. Bydd modd aros yno 2 awr a thrwy'r dydd ar Sadwrn a Sul ar y rhan rhwng Chans a Dinorwig House. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau problemau parcio. Newid arwyddion i ddigwydd yn fuan.

11)**Bws Brynffynnon**: cafwyd cais i'r Cyngor Cymuned edrych mewn i'r posibilrwydd o gael gwasanaeth bws yn rhedeg ar Ffordd Brynffynnon. Rydym yn disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd.

12)**Gŵyl Y Felin**: mawr yw ein diolch unwaith eto am ddigwyddiad hynod lwyddiannus. Cafodd y llythyr yma ei gyhoeddi yn y Chronicle a'r Herald:

Dear Editor
May I take the opportunity to thank the Felinheli Festival Committee for putting on yet another wonderful week this year. The festival brings us all together to celebrate our particular way of life here on the shores of the Menai Straits.
As usual there was something for everyone and there were some welcome new features including the lively Folk Dance and 'Felinteli.' The local produce fair is really taking off now as small local food and craft businesses gather to display their goods. To cap it all, Carnival Day was enjoyed by people from a wide area as we were blessed with warm sunshine, pure blue skies and stunning views over to Anglesey.
Diolch yn fawr iawn Islwyn a'r criw. Without your work throughout the year, none of this would be possible.
Warmest congratulations on a very successful festival. I know you are already planning for 2014!
Yours faithfully
Councillor Sian Gwenllian (Y Felinheli)

13)Mae llawer wedi cwyno am y biniau sydd yn cael eu gadael wrth y bont mewn i'r marina. Rwyd wedi gofyn i'r Cyngor Sir edrych ar y sefyllfa.

15)Tyfiant ar lwybrau cyhoeddus: Rwyf wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned edrych ar broblemau efo rhai llwybrau.

16)Cofiwch am y Biniau Ail-gylchu sydd ar gyfer defnydd y cyhoedd ger swyddfa'r Doc Feistr.

17)**Gwyliau Haf**: Byddaf ar wyliau Gorffennaf 19 tan Awst 2. Nol yn Felin Sgwrsio ail wythnos ym Medi.